- Os ydych chi a'r troseddwr eisiau cytuno y byddan nhw'n gwneud pethau sy'n methu bod yn amodau ffurfiol o'u Rhybudd, mae hyn yn iawn. Fe fyddant yn dod yn gytundeb gwirfoddol rhyngoch chi a'r troseddwr; byddant yn cytuno i hyn yn ychwanegol at y Rhybudd Amodol.

- Os byddwch chi a/neu'r troseddwr yn penderfynu nad ydych eisiau cyfarfod, fe all yr un broses ddigwydd gan drosglwyddo negeseuon trwy'r hwylusydd.

Os byddaf yn dweud na wrth y drefn cyfiawnder adferol, a fydd y troseddwr yn dal i allu cael Rhybudd Amodol?

Bydd. Fe fydd y CPS yn penderfynu a fydd y troseddwr yn gallu cael Rhybudd Amodol ac, os bydd, pa amodau sy'n addas. Ond, dyma rai rhesymau da dros gytuno i gymryd rhan yn y drefn cyfiawnder adferol:

- Rydych yn cael cyfle i fynegi barn am yr hyn sy'n digwydd i'r troseddwr a gallwch ofyn unrhyw gwestiynau sydd ar eich meddwl.

- Mae'n bosib hefyd y bydd cyfle i chi dderbyn ymddiheuriad a iawn gan y troseddwr. Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a phenderfyniadau'r ddau ohonoch.

- Mae'n bosib y bydd cyfathrebu gyda'r troseddwr yn eich helpu i fwrw'r trosedd o'ch meddwl a lleihau unrhyw ofnau sydd gennych am fod yn ddioddefwr eto.

A gaf fi ddod â rhywun gyda mi i gyfarfod cyfiawnder adferol?

Cewch. Bwriad cyfarfodydd cyfiawnder adferol yw rhoi cyfle i bawb a ddioddefodd yn sgil trosedd gael dweud ei ddweud. Gall y cyfarfodydd hyn weithio'n well hefyd os oes pobl yno i'ch cefnogi. Bydd yn gyfle i bawb gael dweud pa effaith a gafodd y digwyddiad arnynt. Gall yr hwylusydd drafod gyda chi pwy arall y gellid ei wahodd i'r cyfarfod. Bydd cyfle i'r troseddwr hefyd ddod â rhywun i'w gefnogi.

Beth os byddaf yn newid fy meddwl?

Mae gennych hawl i newid eich meddwl ynghylch cymryd rhan mewn cyfiawnder adferol unrhyw bryd. Yn dilyn hynny, byddai'r CPS yn ystyried a oes modd rhoi Rhybudd Amodol i'r troseddwr a pha amodau fyddai'n briodol.

Os oes gennych ragor o gwestiynau am gyfiawnder adferol neu unrhyw beth yn y daflen hon, siaradwch â'r sawl a roddodd y daflen i chi neu'r hwylusydd cyfiawnder adferol. Gallant eich helpu i benderfynu a yw cyfiawnder adferol yn addas i chi. Mae rhagor o wybodaeth am gyfiawnder adferol yn:

www.homeoffice.gov.uk/crimevictims/victims/restorative-justice/

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton, 01204 550803

Cyfiawnder Adferol a'r Rhybudd Amodol

gwybodaeth ar gyfer

DIODDEFWYR

Gwybodaeth gryno a chyffredinol sydd yn y daflen hon.

Mae'n egluro beth yw cyfiawnder adferol a sut y gellir defnyddio hynny gyda Rhybudd Amodol. Dylech ddarllen y daflen hon ynghyd â'r daflen gyffredinol ar Rybudd Amodol.

Sylwch: Prosesau gwirfoddol yw prosesau cyfiawnder adferol bob amser i bawb. Mae'n bosib y rhoddir Rhybudd Amodol i droseddwyr hyd yn oed os penderfynwch beidio â chymryd rhan mewn cyfiawnder adferol.

CJS System Cyfiawnder Troseddol

Beth yw Cyfiawnder Adferol?

Mae Cyfiawnder Adferol yn rhoi cyfle i bawb a fu'n gysylltiedig â throsedd i siarad ynghylch yr hyn a ddigwyddodd, sôn am yr effaith a gafodd arnynt a'r hyn y gellir ei wneud i ddadwneud y niwed.

Gall cyfiawnder adferol fod yn gyfarfod wyneb yn wyneb (cyfiawnder adferol uniongyrchol) rhyngoch chi a'r troseddwr, gyda pherson wedi'i hyfforddi (y hwylusydd) yn cadeirio neu, os nad ydych chi neu'r troseddwr yn teimlo'n gyfforddus â hynny, gellir trosglwyddo negeseuon i'ch gilydd trwy'r hwylusydd (cyfiawnder adferol anuniongyrchol).

Pam fyddwn i eisiau cymryd rhan mewn cyfiawnder adferol?

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod cyfiawnder adferol yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn i bawb, yn enwedig dioddefwyr troseddau.

Mae mwyafrif y dioddefwyr sy'n dewis cymryd rhan mewn cyfiawnder adferol yn falch eu bod wedi cymryd rhan ac yn teimlo bod y broses wedi'u helpu i deimlo'n well ynghylch eu sefyllfa.

Gall cyfiawnder adferol roi cyfle i chi holi'r troseddwr a rhoi siawns i chi roi gwybod iddynt am yr effaith a gafodd eu gweithredoedd arnoch chi ac unrhyw un arall.

Mae cyfiawnder adferol hefyd yn gyfle i chi ddwyn troseddwr i gyfrif a derbyn ymddiheuriad.

Fe fyddwch hefyd yn gallu cyfathrebu â'r troseddwr, neu drafod â nhw, i weld beth all y troseddwr ei wneud i chi a/neu'r bobl eraill y mae'r trosedd wedi effeithio arnynt.

Beth yw'r cysylltiad rhwng hyn a'r Rhybudd Amodol?

Os byddwn yn penderfynu bod y troseddwr yn eich achos chi yn addas i gael Rhybudd Amodol, fe allai cyfiawnder adferol ddigwydd un ai:

1) Fel amod gwneud iawn yn Rhybudd Amodol y troseddwr. Gallai hyn ddigwydd ble'r ydych wedi awgrymu y byddai proses cyfiawnder adferol (ynddi ei hun) yn cynorthwyo i wneud iawn am y niwed a wnaethont i chi. Gallai'r broses cyfiawnder adferol fod yn un o nifer o amodau.

2) Neu, gellid defnyddio proses cyfiawnder adferol i adael i chi a'r troseddwr lunio amodau'r Rhybudd Amodol. Os bydd cyfiawnder adferol yn cael ei ddefnyddio fel hyn, bydd y broses yn digwydd cyn i'r troseddwr gael y Rhybudd Amodol, er mwyn i'r holl bobl a ddioddefodd yn sgil y trosedd allu awgrymu amodau addas.

Beth fydd yn digwydd mewn cyfarfod neu "gynhadledd" cyfiawnder adferol?

- Fe fydd llawer o waith paratoi gofalus yn digwydd bob amser cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod beth i'w ddisgwyl a gwneud yn siwr y bydd y cyfarfod yn ddiogel i bawb. Mater gwirfoddol i bawb yw cymryd rhan mewn cyfarfod cyfiawnder adferol.

- Yn y cyfarfod bydd yr hwylusydd yn gofyn i bawb sôn am yr hyn a ddigwyddodd, a sut mae'r trosedd wedi effeithio arnynt.

- Pan fydd pawb wedi clywed am effaith y trosedd, bydd y troseddwr, y chi a phobl eraill dan sylw yn cael cyfle i siarad am yr hyn y gall y troseddwr ei wneud i helpu i wneud iawn am y niwed a achoswyd.

- Pan fydd cyfiawnder adferol yn cael ei ddefnyddio i lunio amodau'r Rhybudd Amodol, bydd yr hwylusydd yn gallu cynghori a yw'r pethau rydych yn eu trafod yn addas fel amodau ffurfiol.

- Ar ddiwedd y gynhadledd, bydd yr amodau a awgrymir yn cael eu hanfon at yr erlynydd — sy'n gweithio i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) — a'r erlynydd fydd â'r gair olaf ynghylch a yw'r amodau dan sylw yn rhai priodol.

- Mae'n bosib i'r CPS awgrymu amodau eraill yn lle'r rhai a nodwch, os bydd hynny'n angenrheidiol.